ATODLEN 7 — Rheoliad 15(6)(b) Rheoliad 16(1)

Gofynion ar gyfer dulliau asesu ac eithrio mesuriadau sefydlog

# RHAN 1

## Llygryddion Grŵp A

**1.** Rhaid llunio'r gwybodaeth ganlynol ar gyfer parthau lle defnyddir ffynonellau eraill ar wahân i fesuriadau sefydlog i ychwanegu at y gwybodaeth a geir o fesuriadau sefydlog neu fel yr unig ddull o asesu ansawdd aer—

(a) disgrifiad o weithgareddau asesu a gynhelir;

(b) y dulliau penodol a ddefnyddir, gyda chyfeiriadau at ddisgrifiadau o'r dull;

(c) ffynonellau data a gwybodaeth;

(ch) disgrifiad o ganlyniadau, gan gynnwys ansicrwydd ac, yn arbennig, maint unrhyw ardal neu, os yn berthnasol, hyd y ffordd yn y parth lle mae'r crynodiadau yn uwch na'r gwerth terfyn neu, yn ôl yr achos, y gwerth terfyn ynghyd â'r ffin goddefaint cymwys ac unrhyw ardal lle bo'r crynodiadau yn uwch na'r trothwy asesu uchaf neu'r trothwy asesu isaf;

(d) ar gyfer gwerthoedd terfyn sydd â'r nod o ddiogelu iechyd pobl, y boblogaeth a allai fod yn agored i grynodiadau sy'n uwch na'r gwerth terfyn.

**2.** Lle bo hynny'n bosibl, rhaid sicrhau bod mapiau yn cael eu llunio sy'n dangos dosbarthiadau'r crynodiadau ym mhob parth.

# RHAN 2

## Llygryddion Grŵp B

### Gofynion ar gyfer modelau ansawdd aer

**3.** Lle defnyddir model ansawdd aer ar gyfer asesu, rhaid i unrhyw cyfeiriadau at ddisgrifiadau o'r model a gwybodaeth ynglyn â'r ansicrwydd gael ei llunio. Mae'r ansicrwydd ar gyfer modelu yn golygu'r uchafswm amrywiadau ar y lefelau crynodiad a gyfrifir ac a fesurir, dros flwyddyn lawn, heb gymryd fewn i ystyriaeth amseriad y digwyddiadau.

### Gofynion ar gyfer dulliau amcangyfrif gwrthrychol

**4.** Lle defnyddir dulliau amcangyfrif gwrthrychol, ni chaiff yr ansicrwydd fod yn uwch na 100%.

### Safoni

**5.** Ar gyfer sylweddau i'w dadansoddi yn y ffracsiwn $PM_{10}$, mae'r cyfaint samplu yn cyfeirio at amodau amgylchynol.

# RHAN 3

**Osôn a sylweddau rhagsylweddyn osôn**

**6.** Dylai'r wybodaeth ganlynol gael ei llunio ar gyfer parthau lle y defnyddir ffynonellau ag eithrio mesuriadau i ychwanegu at wybodaeth a geir o fesuriadau—

(a) disgrifiad o'r gweithgareddau asesu a wnaed;

(b) y dulliau penodol a ddefnyddiwyd, gan gyfeirio at ddisgrifiadau o'r dull;

(c) y ffynonellau data a gwybodaeth;

(ch) disgrifiad o'r canlyniadau, gan gynnwys ansicrwydd ac, yn benodol, hyd a lled unrhyw ardal yn y parth lle mae'r crynodiadau'n uwch na'r amcanion hirdymor neu'r gwerthoedd targed;

(d) ar gyfer amcanion hirdymor neu werthoedd targed sy'n anelu at ddiogelu iechyd pobl, y boblogaeth a allai fod yn agored i grynodiadau sy'n uwch na'r trothwy.

**7.** Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod mapiau yn cael eu llunio sy'n dangos dosbarthiadau'r crynodiadau ym mhob parth.